# YMA AC ACW

## O. J. G. COWELL, Pwllheli, yn casglu arysgrifau wrth deithio'r wlad

PAN fyddaf ar fy ngwyliau byddaf bob amser yn mwynhau mynd o gwmpas hen eglwysi, a bonws ychwanegol bob tro yw dod o hyd í arysgrifau sydd yn gysylltiedig â Sir Gaernarfon.

CASTELL WINDSOR:
Wrth fynd i mewn i Gastell Windsor un tro cofiais fy mod wedi darllen yn rhywle fod yna ŵr bonheddig o Sir Gaernarfon wedi ei gladdu yno. Wedi crwydro tipyn o gwmpas y lle dyma ddod i Eglwys St. George a darganfod yr arysgrif hon:

> *'Neare this place lieth the bodie of Capt. Richard Vaughan of Pantglas in the County of Carnarvon, who behaved himself with great courage in the service of King Charles I, of blessed memory, in the civil wars and thereupon lost his eyesight, in recompence thereof, he was in July 1663 made one of the Poor Knights of this place and died the 5th day of June 1700 in his 80th year of his age.'*

Wedi gweld yr arysgrif roeddwn yn awyddus i wybod mwy am y gŵr bonheddig hwn ac wedi dychwelyd adref yr oedd yn rhaid mynd ati i geisio darganfod pwy oedd y Richard Vaughan yma oedd yn gorwedd yn Windsor gyda rhai o frenhinoedd a mawrion Lloegr.

Wrth chwilota darganfûm fod Pantglas wedi ei leoli rhwng Betws-y-Coed a Phentrefoelas a bod y plasty wedi hen ddiflannu ond fod yr enw yn dal i barhau yng Nghapel Pantglas yn eglwys Ysbyty Ifan. Yr oedd Pantglas yn gartref i deulu enwog y Vaughaniaid y ceir eu hachau yn anghyflawn ac anghywir gan J. E. Griffith yn ei *Pedigrees of Anglesey and Carnarvonshire Families* (1914). Ceir nodyn am y teulu yn *Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940* hefyd. Dywedir bod yna gysylltiad rhwng teulu Pantglas â Phlas Iolyn ac â'r Doctor Ellis Price, *'the Red Doctor'*, gŵr nodedig am lawer o bethau digon amheus ac a oedd hefyd yn un o'r beirniaid yn Eisteddfod Caerwys yn 1567. Yr oedd y teulu yn nodweddiadol o'u dosbarth yn y cyfnod hwnnw, yn Siryfion, twrniaid, milwyr a gwleidyddion.

Sefydlwyd y *'Poor Knights'* yn wreiddiol gan Iorwerth III ac yna fe gafodd y gymdeithas ei hailsefydlu gan Siarl II wedi iddo droi allan o'i rhengoedd unrhyw filwr oedd ag unrhyw gysylltiadau â Cromwell. Collodd Richard Vaughan ei olwg wrth frwydro ar ran y brenin yn y Rhyfel Cartref ac fe gafodd ei ethol yn un o'r *'Poor Knights of Windsor'* yng Ngorffennaf 1663. I fod yn aelod o'r gymdeithas urddasol hon yr oedd yn rhaid i bob ymgeisydd fod yn dlawd, yn ddi-briod ac wedi rhoi gwasanaeth clodwiw i'r goron. Mae'n debyg fod aelodau'r gymdeithas yn gorfod derbyn ychydig o ddisgyblaeth, er enghraifft, roedd yn rhaid iddynt fynd i'r eglwys yn ddyddiol. Mae'n debyg fod y *'Poor Knights'* yn mwynhau bywyd moethus iawn yng Nghastell Windsor gyda llety cysurus, cyflog rheolaidd a mantell foethus i nodi eu hurddas.

Erbyn diwedd ei oes yr oedd Richard Vaughan wedi casglu tipyn o arian ac yn ei ewyllys, dyddiedig 1700, rhoddodd swm o arian tuag at godi elusendai i fod yn gartrefi i, 'chwech o hynafgwyr tlawd' ar yr amod fod yr elusendai yn cael eu codi o fewn chwe mis i'w farwolaeth. Yng nghyffiniau Ty'n-y-borth, Sir Ddinbych, ac nid yng nghyffiniau Pantglas y codwyd y tai. Yr oedd cyfnither iddo, Katherine Vaughan a fu farw yn ddi-briod ym Mhantglas tua 1700, wedi gadael arian i godi elusendai i ferched. Codwyd y tai hyn ar dir Pantglas yn Ysbyty Ifan.

Erbyn 1800 yr oedd yr elusendai mewn cyflwr gwael a gwerthwyd tai Richard Vaughan i godi arian i adnewyddu tai Katherine Vaughan i fod yn gartrefi i ddynion a merched. Mae'r tai yn dal yno.

TREDINGTON:
Saif Tredington tua hanner ffordd rhwng Warwick a Stafford-on-Avon, tua deng milltir ar hugain o Rydychen. Tra yno ymwelais ag eglwys y plwyf ac er mawr syndod gwelais yr enw 'Plas-yn-Rhiw' ar waelod un o'r ffenestri lliw. Dyma beth a welais:

> *'To the Glory of God and in loving memory of Robert Edward Williams, M.A., Son of Cyril Williams of Plas-yn-Rhiw, Caernarfonshire.*
>
> *Fellow of Jesus College, Oxford, Rector of Tredington 1871-1895, Rector of Branston 1895-1906*
>
> *Born 3 July 1843 and fell asleep 10 April 1906.'*

Ar y mur uwchben y drws yr oedd rhestr o gyn-offeiriad y plwyf ac yn rhyfedd iawn roedd nifer ohonynt yn Gymry. Ni allwn ddeall pam fod cymaint o gyn-offeiriaid eglwys hynafol ym mherfeddion Lloegr yn Gymry ac wedi dychwelyd adref daeth cyfle i fynd ar drywydd y mater yn drwyadl.

Cyfreithiwr ym Mhwllheli oedd Cyril Williams, tad Robert Edward Williams. Roedd yn fab i reithor Llanbedrog ac fe gafodd ei eni yn 1806. Ar y 5ed o Ionawr 1835 priododd â Mary Ann Bennet, unig blentyn ac aeres Lewis Moore Bennet, Plas-yn-Rhiw. Ar ôl priodi ymgartrefodd y ddau mewn ffermdy o'r enw Talcymerau, ger Pwllheli. Hanes trist iawn sydd i'r briodas hon oherwydd bu Mary Ann farw'n bedair ar bymtheg oed ar y 13eg o Ragfyr 1835 ar enedigaeth ei mab William Lewis Williams.

Ar ôl y brofedigaeth drist hon magwyd William Lewis Williams gan ei daid a'i nain ym Mhlas-yn-Rhiw. Oherwydd galwadau ei waith yr oedd ei dad yn rhannu ei amser rhwng y Plas a Thalcymerau. Mae'n ddiddorol nodi fod yna bont ger llwybr sydd yn rhedeg o'r 'turnpike', Ffordd Ala i'r Clwb Golff, wedi ei hadeiladu gan Cyril Williams i fod yn 'short-cut' i gerbydau a deithiai i Dalcymerau. 'Ffordd Cyril' y'i gelwid gan hen drigolion Pwllheli. Chwalwyd y bont gan lifogydd yn ddiweddar.

Erbyn 1861 roedd William Lewis Williams yn byw yn San Francisco ac ar farwolaeth ei nain, Jane Ann Bennet, Plas-yn-Rhiw, y flwyddyn honno ef etifeddodd y Plas a daeth adref i hawlio ei etifeddiaeth. Mae'n debyg mai teithiwr o fri oedd o oherwydd bu farw ymhen rhai blynyddoedd yn Awstralia.

Yn y cyfamser roedd Cyril Williams wedi ailbriodi. Margaret Jones, merch y Parchedig Richard Jones, Rheithor Llaniestyn, oedd ei ail wraig ac un o bedwar o blant o'r briodas hon yw'r Parchedig Robert Edward Williams, gwrthrych y nodiadau hyn. Roedd Robert Edward Williams yn Gymrawd o Goleg yr Iesu, Rhydychen. Roedd Coleg yr Iesu wedi prynu bywoliaeth eglwys Tredington yn 1703. A dyna sefydlu dolen gyswllt bendant rhwng Cymru, Coleg yr Iesu a Tredington. Mae Coleg yr Iesu yn enwog am ei gysylltiadau â Chymru ac nid yw'n anodd deall awydd awdurdodau'r Coleg yn rhoi swyddi lleol i'w Cymrodyr ac i'w myfyrwyr mwyaf disglair er mwyn eu cadw yn agos i'r Coleg a dyna egluro pam fod Robert Edward Williams, Plas-yn-Rhiw, a nifer o Gymry eraill, wedi treulio blynyddoedd yn gwasanaethu Eglwys Loegr yn Tredington.

Coeliwch fi mae casglu arysgrifau yn weithgarwch gwerth chweil. Gwell o lawer na chasglu hen lyfrau!

# Darllenwyr Dethol y Bont-faen

## gan R. ELWYN HUGHES

Yn ddiweddar daeth i'm meddiant gopi o'r *Edinburgh Review* am Ebrill 1853 a fu'n perthyn, ar un adeg, i'r *'Cowbridge Book Club'*. Yn adunedig â'r clawr uchaf roedd taflen *'Rules for the Circulation of Books'* a thu mewn i'r clawr ceir taflen brintiedig arall sy'n cynnwys enwau'r 25 aelod a berthynai i'r Clwb. Mae'n amlwg felly mai llyfrgell gylchynnol draddodiadol oedd y *'Cowbridge Book Club'* o'r math a ddaeth yn dra phoblogaidd yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Perthynai iddo nifer cyfyngedig o aelodau a byddai'r llyfrau a brynwyd i'r Clwb gan eu tanysgrifiadau yn cael eu trosglwyddo o'r naill aelod i'r llall yn unol â'r drefn enwau ar y daflen brintiedig. Câi pob aelod gadw'r llyfr am bum diwrnod, wedyn rhaid oedd ei drosglwyddo i'r aelod nesaf. Roedd llyfrgelloedd o'r fath yn dal i fodoli hyd at yn gymharol ddiweddar mewn rhai cylchoedd arbennig. Yr unig un y gwn i amdani oedd llyfrgell gylchynnol a fodolai ymhlith nifer o ddiwinyddion yng Nghaergrawnt yn y pumdegau.

Mae'n amlwg mai cylch pur ddethol oedd y *'Cowbridge Book Club'* a'i aelodau'n cynrychioli haenen uchaf cymdeithas Bro Morgannwg. Gellir dod o hyd i enwau bron y cyfan o'r aelodau yn adran y *'Gentry'* yn y cyfarwyddiaduron arferol megis *Hunt & Co's Directory* . . . (1849) neu *Slater's . . . Directory* (1858-9). Yr unig eithriadau oedd Dr Sylvester ('Surgeon') a John Bevan a Charles Redwood ('Solicitors'). Ni pherthynai'r un ysgolfeistr na gweinidog anghydffurfiol i'r Clwb.

Cychwynnodd yr *Edinburgh Review* ar ei daith ar 14 Ebrill 1853 yn nhŷ Miss Louisa Traherne; erbyn 29 Medi yr oedd wedi cwblhau ei rawd ac yn barod i'w ddychwelyd i Mr Bird (y trefnydd?). Mae'n amlwg oddi wrth y dyddiadau fod y rhan fwyaf o'r aelodau'n parchu rheolau'r Clwb ac yn trosglwyddo'r gyfrol i'r enw nesaf yn brydlon ac o fewn y pum diwrnod a ganiateid.

Y gyfrol arbennig hon o'r *Edinburgh Review*, gyda llaw, oedd yr un a gynhwysai ymdriniaeth ar *'The Church of England in the mountains'* (h.y. yng Nghymru), yn seiliedig yn bennaf ar *Reports of the Commissioners on Educaion in Wales* (1847). Bu'n dra beirniadol o sefyllfa'r offeiriadaeth yng Nghymru gan gyfeirio'n ddirmygus at ddulliau ymgreiniol y *'peasant clergy'* o sicrhau swyddi. Beth, tybed, oedd ymateb pendefigaeth eglwysig hunan-benodedig y Bont-faen i hyn oll?